

## Y diweddaraaf am allbynnau Cyfrifiad 2021

Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector  
28 Ebrill 2022

Ar 1 Mawrth 2022, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol [ddiweddariad am hynt y gwaith o gyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021](#). Caiff llawer iawn o waith ei wneud i gasglu, glanhau, cwblhau, croeswiro, sicrhau cyfrinachedd a pharhau i ymgynghori â defnyddwyr, er mwyn gwneud yn siŵr y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn rhoi'r darlun cyfoethocaf o gymdeithas.

Am y tro cyntaf, rydym wedi cynnig y cyfle i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth a'n helpu gyda'r broses sicrhau ansawdd. Ddechrau mis Ebrill, gwnaethom rannu data dros dro cyfanredol a dienw, dan fynediad wedi'i reoli, â mwy na 250 o awdurdodau lleol, awdurdodau cyfun a chynghorau sir ledled Cymru a Lloegr. Gan ddefnyddio eu dealltwriaeth a'u harbenigedd unigryw, dros gyfnod o dair wythnos, rydym yn gofyn iddynt ymchwilio i'r data ar gyfer eu hardal leol a rhoi adborth i ni ar ansawdd y data. Rydym am ystyried yr holl ddealltwriaeth a rennir, lle caiff ei hategu, y gall y sefydliadau hyn ei gynnig, cyn i ni ddechrau cyhoeddi allbynnau Cyfrifiad 2021.

Ar 31 Mawrth, gwnaethom hefyd gyhoeddi [ail ran ein hymateb](#) i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar allbynnau Cyfrifiad 2021 y gwnaethom ei gynnal yn ystod haf 2021. Yn nwy ran ein hymateb, rydym yn rhannu'r adborth a gawsom gan ddefnyddwyr ar ein cynlluniau ar gyfer yr amserlen datganiadau a chynllun allbynnau Cyfrifiad 2021. Rydym hefyd yn rhestru'r newidiadau rydym yn eu gwneud neu'n ystyried eu gwneud yn seiliedig ar yr adborth hwn.

### Amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021

Rydym yn bwriadu rhyddhau canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ar boblogaeth Cymru a Lloegr ddechrau haf 2022, a chaiff holl brif ddata eraill Cyfrifiad 2021 eu rhyddhau fesul tipyn o fewn dwy flynedd i'r cyfrifiad. Byddwn yn rhoi diweddariad pellach am ein cynlluniau yn hwyrach ym mis Mai.

#### Cam 1

##### Y canlyniadau cyntaf

Bydd canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yn ceisio cynnwys amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi wedi'u talgrynnu ar gyfer Cymru a Lloegr, ar lefel awdurdod lleol ac wedi'u croes-dablu yn ôl rhyw ac oedran.

Ar y cyd â'r data, byddwn hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth i helpu defnyddwyr i ddeall y canlyniadau. Bydd hyn yn cynnwys bwletin ystadegol am amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac adroddiadau ategol am ansawdd data a dulliau Cyfrifiad 2021. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd gwybodaeth am ddata Cyfrifiad 2021 ar gael mewn fformatau hygyrch amgen.

### **Crynodebau o bynciau a phroffiliau ardal (data unamryweb yn bennaf)**

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn dechrau rhyddhau crynodebau o bynciau syml fesul tipyn. Set o ddata a sylwebaeth ategol, a drefnir yn ôl thema debyg, yw crynodeb pwnc.

Rydym yn cynnig cwmpasu'r pynciau hyn yn y drefn a gaiff ei rhestru:

- demograffeg a mudo
- grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd
- iechyd, anabledd a gofal di-dâl
- tai
- y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- addysg
- cyn-filwyr lluoedd arfog y DU

Gan ddefnyddio'r data o'r crynodebau o bynciau, byddwn yn creu proffiliau ardal dynamig. Bydd proffiliau ardal yn galluogi defnyddwyr i weld ystadegau o bynciau gwahanol ar gyfer ardal benodol a chymharu ystadegau lleol ar gyfer ardal ag ystadegau cenedlaethol.

Rydym yn darparu rhagor o wybodaeth am y crynodebau o bynciau a'r proffiliau ardal, gan gynnwys y newidynnau a'r dosbarthiadau rydym yn bwriadu eu cynnwys ynddynt, ar y dudalen am [grynodebau o bynciau a phroffiliau ardal](#) ar wefan SYG.

#### Cam 2

##### **Data amlamrywedd**

Yn ystod cam dau, byddwn yn rhyddhau data amlamrywedd yn seiliedig ar y boblogaeth preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr. Bydd y datganiadau hyn yn galluogi defnyddwyr i gyfuno newidynnau ac archwilio cydberthnasau rhwng y data.

Ar y cyd â setiau data safonol y gall defnyddwyr eu gweld a'u lawrlwytho, byddwn yn cyflwyno cyfleuster newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. Bydd y cyfleuster newydd hwn yn galluogi defnyddwyr i greu eu setiau data eu hunain drwy ddewis neu newid cyfuniadau gwahanol o newidynnau, dosbarthiadau a daearyddiaethau. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfleuster newydd hwn, a'r gwiriadau datgelu ystadegol awtomataidd sy'n sail iddo, ar gael ar y dudalen we am [setiau data amlamrywedd](#).

#### Cam 3

##### **Data amgen a data poblogaethau bach**

Yng ngham tri, byddwn yn dechrau rhyddhau data am seiliau poblogaeth amgen. Lleoliadau daearyddol gwahanol yw'r rhain lle gallai unigolion fod wedi cael eu cyfrif ar gyfer Cyfrifiad 2021. Mae enghreifftiau o seiliau poblogaeth amgen yn cynnwys poblogaethau gweithle, diwrnod gwaith, y tu allan i'r tymor a byrdymor.

Byddwn hefyd yn dechrau rhyddhau data am boblogaethau bach. Mae poblogaethau bach yn grwpiau a ddiffinnir gan eu cefndir diwylliannol, gan gynnwys nodweddion megis grŵp ethnig, gwlad enedigol, crefydd a hunaniaeth genedlaethol. Ymhlith yr enghreifftiau o

boblogaethau bach mae pobl Gernywaidd, Kashmiraid, Nepalaidd, Sicaidd, Ravidassia a Jain.

Ceir rhagor o wybodaeth ar y dudalen we am [boblogaethau amgen a phoblogaethau bach](#).

### Data tarddiad-cyrchfan neu ddata 'llif'

Mae datganiadau eraill yng ngham tri yn cynnwys data tarddiad-cyrchfan, sy'n disgrifio symudiad pobl o un lleoliad i'r llall. Mae'r enghreifftiau o ddata tarddiad-cyrchfan rydym yn bwriadu eu rhyddhau yn cynnwys data llif mudo, data llif gweithleoedd, data llif ail gyfeiriad a data llif myfyrwyr. Caiff data tarddiad-cyrchfan eu dosbarthu mewn tair ffordd: cyhoeddus, wedi'u diogelu, neu ddiogel. Ceir rhagor o wybodaeth ar y dudalen we am [ddata tarddiad-cyrchfan](#).

### Samplau microdata

Byddwn hefyd yn darparu samplau microdata, sef cofnodion dienw ar gyfer unigolion a chartrefi, sy'n cynnwys detholiad o nodweddion cysylltiedig y cyfrifiad. Yn yr un modd â'r data tarddiad-cyrchfan, caiff samplau microdata eu dosbarthu mewn tair ffordd: cyhoeddus, wedi'u diogelu, neu ddiogel. Ceir rhagor o wybodaeth ar y dudalen we am [microdata](#).

### Ar ôl mis Mawrth 2023: Data'r DU

Cafodd cyfrifiadau Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu cynnal ar 21 Mawrth 2021 a chafodd cyfrifiad yr Alban ei gynnal ar 20 Mawrth 2022. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaeth o flwyddyn rhwng dyddiadau cyfeirio ac na chaiff yr allbynnau cyntaf o ddata'r Alban eu cyhoeddi cyn mis Mawrth 2023. Mae holl swyddfeydd y cyfrifiad yn y DU yn cydweithio'n agos i ddeall sut y bydd y gwahaniaeth hwn mewn dyddiad cyfeirio yn effeithio ar ein gallu i gynhyrchu data ar gyfer y DU. Ceir rhagor o wybodaeth ar y dudalen we am [ddata cyfrifiad y DU](#).

## Rhagor o wybodaeth

Rydym yn parhau i hyrwyddo gwybodaeth newydd am allbynnau Cyfrifiad 2021 drwy ein bwletinau e-bost. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am allbynnau, cynhyrchion, cynlluniau datganiadau a digwyddiadau Cyfrifiad 2021, cofrestrwch i gael bwletinau am ddim GovDelivery.

Gallwch wneud hyn drwy:

- ymweld â gwefan [GovDelivery](#)
- rhoi eich cyfeiriad e-bost yn y maes priodol
- dewis yr opsiwn i danysgrifio i allbynnau Cyfrifiad 2021
- pwysu'r botwm cyflwyno ar waelod y dudalen

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cynlluniau ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021, gallwch hefyd anfon e-bost atom yn: [census.outputs@ons.gov.uk](mailto:census.outputs@ons.gov.uk).